# <u>Hysbysiad o Gwneud</u>

## GWAHARDDIAD DIM AROS AR UNRHYW ADEG

## CYNGOR SIR Y FFLINT

## FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 28 Mawrth 2023 drwy arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984,Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’-:

    a. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Ffordd Llewelyn, y Fflint

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013’ yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 30 Mawrth 2023, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros y Gorchymyn, gellir eu harchwilio, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD. Fe fydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Os ydych chi’n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener, 31 Mawrth 2023